| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 17 Chwefror 2022 |
| **Pwnc** | Amrywiaeth mewn Democratiaeth |
| **Argymhelliad** | Cyflwyno diweddariad o'r camau gweithredu i'r Pwyllgor. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

**Diweddariad.**

1. Mae'r Pwyllgor wedi arwain ar y maes o geisio annog mwy o amrywiaeth mewn Democratiaeth ers rhai blynyddoedd bellach, ac mae gwaith yn mynd ymlaen yn y maes yn barhaus. Cyhoeddwyd Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd ym mis Hydref 2021 a'r rhaglen waith wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2021.

2. Mae nifer o elfennau'r rhaglen waith yn ymwneud â'r paratoadau ar gyfer yr etholiad. Un elfen yw annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll yn yr etholiad, ac elfen arall yn edrych ar y trefniadau sydd mewn lle i anwytho a chroesawu Cynghorwyr newydd yn dilyn yr etholiad. Mae adroddiad arall wedi ei gyflwyno i'r pwyllgor yn eich diweddaru ar yr elfennau hyn.

3. Materion eraill sy'n derbyn sylw yn gyfredol yw llunio Holiadur amrywiaeth/cydraddoldeb. Bydd yr holiadur yn cael ei rannu gyda holl Aelodau cyfredol y Cyngor er mwyn casglu tystiolaeth (dienw) am amrywiaeth yn y Cyngor presennol. Bydd yr holiadur yn cael ei ail adrodd ar ddechrau'r tymor nesaf fel bod gennym ddata cadarn i'w gasglu o hyn allan. Bydd hyn yn gosod sail tystiolaeth i unrhyw waith pellach sydd angen ei wneud. Gwirfoddol fydd llenwi'r holiadur ond rydym yn annog pawb i wneud hynny.

4. Yn ogystal, mae llawer iawn i'w ddysgu gan Gynghorwyr sy'n penderfynu peidio sefyll eto. Mae gwaith cenedlaethol yn digwydd yn y maes yma fydd yn adrodd ar wersi cyffredinol ar draws Cymru maes o law. Fodd bynnag, er mwyn dysgu mwy am beth sydd wedi bod yn llwyddiant, ysgogiad i sefyll fel Cynghorydd yn y lle cyntaf, a beth yw'r rhwystrau a rhesymau pam nad yw Aelod yn sefyll eto, credir bod budd i gynnal ymarferiad o'r fath yma yng Ngwynedd hefyd. Mae'n debygol mai ar ffurf holiadur y byddwn yn casglu'r wybodaeth, gan adrodd gwersi ar gyfer Gwynedd fydd eto yn cynorthwyo i baratoi ar gyfer Cynghorwyr y dyfodol.

5. Ers oddeutu 18 mis bellach, rydym yn gweithredu ar gynnal sesiynau penodol ar gyfer Merched sy'n Gynghorwyr. Mae'r sesiynau anffurfiol (sgwrs dros baned) wedi cynnig gofod diogel lle mae'r Cynghorwyr wedi cael cyfle i

- gefnogi ei gilydd a chymharu profiadau a dysgu oddi wrth y naill a'r llall
- drafod rhwystrau neu faterion sy'n eu poeni a chynnig datrysiadau.

6. Mae'r holl drafodaethau  wedi digwydd o fewn amgylchiadau diogel ac anwleidyddol.  Rydym eisioes wedi adrodd i'r Pwyllgor ar rai o'r materion cyffredinol sydd wedi eu codi gan y grŵpac mae'r materion yn cael eu hystyried er mwyn gwella trefniadau'r Cyngor.  Y prif themau oedd yn codi o'r sgwrs ddiwethaf oedd
    - cyfrifoldebau ychwanegol gan ferched sy'n Gynghorwyr ee paratoadau ar gyfer y Nadolig yn tueddu i ddisgyn yn fwy beichus ar ferched, a hynny tra'n ceisio cario ymlaen gyda dyletswyddau fel cynghorydd hefyd
    - diffyg dealltwriaeth y cyhoedd o rôl Cynghorwyr a'r gydnabyddiaeth ariannol bychan sy'n cael ei dderbyn
    - cyfleoedd i fod yn gwneud gwahaniaeth yn y gymdeithas ee grantiau i gynnal digwyddiadau gyda phobl hŷn a gwaith gyda'r banciau bwyd a chynlluniau bwyd yn y gymuned

7. Mae'n amser synhwyrol bellach i ystyried os oes budd wedi dod o'r sesiynau hyn ac a ddylid parhau i gynnal sesiynau o'r fath yn nhymor y Cyngor newydd er mwyn cynnig yr un math o gefnogaeth i ferched sy'n Gynghorwyr o fis Mai ymlaen.  Mae ymateb cychwynnol yn dangos cefnogaeth i'r cyfeiriad yma.

**Argymhelliad**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor am

    a. unrhyw sylwadau ar y diweddariad a gyflwynwyd

    b. cefnogaeth i sefydlu trefniadau anffurfiol ar gyfer Merched sy'n gynghorwyr yn dilyn etholiad Mai 2022